Subject **Cyngor Sir Powys County Council: Galw am Wirfoddolwyr cymunedol i wella rhwydwaith Hawliau Tramwy / Community volunteers wanted to improve Right of Way network**

From Lee Evans (CSP - Communications Services) <lee.evans@powys.gov.uk>

Date 24/05/2017 15:38

Datganiad Newyddion / News Release

MR 83

Mai 24, 2017

I'w Ryddhau

Galw am Wirfoddolwyr cymunedol i wella rhwydwaith Hawliau Tramwy

Mae Cyngor Sir Powys wedi cyhoeddi y bydd nifer o gymunedau yng ngogledd Powys yn elwa o brosiect newydd i wella'r rhwydwaith Hawliau Tramwy yn eu hardal.

Nod y cynllun yw galluogi cymunedau i gymryd rôl weithredol wrth reoli mynediad i gefn gwlad lleol ac i gymryd perchnogaeth o'r rhwydwaith Hawliau Tramwy. Mae'n gweithredu o fewn Grŵp Clwstwr Gwledig Dyffryn Trefaldwyn sy'n cynnwys ardaloedd cynghorau cymuned Aber-miwl, Aberriw, Dolfor, Ffordun, Ceri, Tre'r Llai, Llandysul, Sarn a Threlystan a Chyngor Tref Trefaldwyn.

Nod y prosiect hwn yw annog trigolion i fod yn rhagweithiol ac i wneud gwaith cynnal a chadw a gwelliannau sylfaenol ar lwybrau yn eu hardal leol. Bydd cymunedau hefyd yn cael eu hannog i ddweud pa waith sydd angen ei flaenoriaethu ac mae cyllid ar gael i roi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo'r llwybrau yn unol â'r hyn sy'n cael ei ystyried i fod yn addas gan y gymuned.

Gallai'r prosiect hwn ar lawr gwlad helpu i gryfhau'r gymuned ymhellach drwy ddod â phobl o wahanol gylchoedd cymdeithasol at ei gilydd. Gyda thirfeddianwyr a gwirfoddolwyr i gyd yn byw yn y gymdogaeth leol y gobaith yw y gallant ddod i adnabod ei gilydd yn well, datblygu gwell dealltwriaeth o bryderon ei gilydd a gofalu am fuddiannau ei gilydd.

Bydd llwyddiant y cynllun yn gwbl ddibynnol ar wirfoddolwyr yn dod ymlaen i helpu i wneud y gwaith. Gallant ddisgwyl diwrnodau difyr yng nghefn gwlad yng nghwmni pobl o'r un anian yn gwneud tasgau cynnal a chadw sylfaenol megis clirio llystyfiant, neu wella llwybrau a gosod gatiau yn lle camfeydd.

Bydd Tîm Gwasanaethau Cefn Gwlad y cyngor yn rhoi pecynnau cyfarpar ac offer diogelwch i'r gwirfoddolwyr ac yn darparu'r holl ddeunyddiau ar gyfer y gwaith. I ddechrau, bydd Swyddog Hawliau Tramwy yn bresennol ar y safle ond y nod tymor hir yw hyfforddi arweinwyr tîm i gyflawni'r holl ofynion cyn-cynllunio ac iechyd a diogelwch.

Meddai Stuart Mackintosh, Pennaeth Hamdden y cyngor: "Mae hwn yn gyfle gwych i unrhyw un sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o dîm a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fynediad at gefn gwlad yn eich ardal chi.

"Mae'n gyfle i ddod i adnabod eich rhwydwaith Hawliau Tramwy yn well yn ogystal â datblygu sgiliau ymarferol mewn ffordd bleserus, wedi eich hamgylchynu gan harddwch naturiol Dyffryn Trefaldwyn. Ni fydd disgwyl i chi wneud unrhyw beth sydd y tu hwnt i'ch gallu neu awydd.

"Byddwch yn cael eich gwobrwyo gyda gwir ymdeimlad o gyflawniad a byddwch yn cael eich atgoffa o'ch cyfraniad i'r gymuned bob tro y byddwch yn defnyddio'r llwybr hwnnw."

Mae mynediad i gefn gwlad yn adnodd pwysig sy'n cyfrannu at ein hiechyd a'n lles yn ogystal â chreu cyfleoedd hamdden sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi dwristiaeth leol. Mae ymdrechion gwirfoddolwyr a chymunedau lleol yn hanfodol i gadw llwybrau lleol ar agor ac yn ddefnyddiadwy.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan neu os hoffech wybod mwy, cysylltwch â Phil Johnson, Swyddog Cyflenwi Cymunedol ar gyfer y prosiect phil.johnson@powys.gov.uk (07779 989967) neu siaradwch â'ch Cynghorydd Cymuned leol.

DIWEDD

MR 83

For Immediate Release

May 24, 2017

Community volunteers wanted to improve Right of Way network

Several communities in north Powys will benefit from a new project to improve the Right of Way network in their area, Powys County Council has announced.

The scheme aims to enable communities to take an active role in managing local countryside access and to take ownership of the Rights of Way network. It operates within the Vale of Montgomery Rural Cluster Group encompassing the areas of Abermule, Berriew, Dolfor, Forden, Kerry, Leighton, Llandyssil, Sarn and Trelystan community councils and Montgomery Town Council.

This project aims to encourage residents to be proactive in undertaking basic path maintenance and improvements in their local area. Communities will also be encouraged to identify which works to prioritise and funding is available to publicise and promote routes as the community sees fit.

This grass roots project could help to further strengthen the community by bringing together people from different social circles. With landowners and volunteers all living in the local neighbourhood it is hoped they may get to know each other better, developing a greater understanding of each other's concerns and mutually looking after their interests.

The success of the scheme is entirely dependent on volunteers coming forward to help undertake works. They can expect enjoyable days out in the countryside in the company of like-minded people undertaking basic maintenance tasks such as vegetation clearance, or path improvements like replacing stiles with gates.

The council's Countryside Services Team will be providing volunteers with their own tool kits and safety equipment and will supply all materials for the works. Initially a Rights of Way officer will be present on site but the long term aim is to train team leaders to fulfil all the health and safety and pre-planning requirements.

Stuart Mackintosh, the council's Head of Leisure and Recreation, said: "This is a fantastic opportunity for anyone who is interested in becoming part of a team that will make a real difference to countryside access in your area.

"It is a chance to get to know your Rights of Way network better while developing practical skills in an enjoyable way, surrounded by the natural beauty of the Vale of Montgomery. Nothing will be asked of you that is beyond your ability or inclination.

"You will be rewarded with a real sense of achievement and a reminder of your contribution to the community every time you use that path."

Countryside access is an important resource which contributes to our health and well-being as well as creating recreational opportunities and making a significant contribution to the local tourism economy. The efforts of volunteers and local communities is vital to keeping local paths open and useable.

If you are interested in getting involved or want to know more, contact Phil Johnson, the Community Delivery Officer for the project at phil.johnson@powys.gov.uk (07779 989967) or talk to your local Community Councillor.

ENDS

For further information please contact:
Am fanylion pellach cysylltwch â:
Lee Evans,
Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Communications and Engagement Officer
Ffôn/Tel: 01597 826023
Ffôn Symudol/Mobile: 07769 640058
Ebost/Email: lee.evans@powys.gov.uk

Mae'r e bost hwn ac unrhyw atodiad iddo yn gyfrinachol ac fe'i bwriedir ar gyfer y sawl a enwir arno yn unig. Gall gynnwys gwybodaeth freintiedig. Os yw wedi eich cyrraedd trwy gamgymeriad ni ellwch ei gopio, ei ddosbarthu na'i ddangos i unrhyw un arall a dylech gysylltu gyda Cyngor Sir Powys ar unwaith. Mae unrhyw gynnwys nad yw'n ymwneud gyda busnes swyddogol Cyngor Sir Powys yn bersonol i'r awdur ac nid yw'n awdurdodedig gan y Cyngor.

This e mail and any attachments are confidential and intended for the named recipient only. The content may contain privileged information. If it has reached you by mistake, you should not copy, distribute or show the content to anyone but should contact Powys County Council at once. Any content that is not pertinent to Powys County Council business is personal to the author, and is not necessarily the view of the Council.